CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYNGOR 1 GORFFENNAF 2014

Presennol
Ei Deilyngdod Y Maer - Cynghorydd W Roy Owen

Cynghorwyr
B Owen, W T Owen, I C Thomas, H Edwards, H W Roberts, M Thomas, G Thomas, E Hughes, C Williams

Siaradwyr Gwadd : Aelod Cabinet Cyng. Gareth Roberts a Dylan i drafod cyflymder 20 milltir

Croesawyd gan Y Maer ac yna sesiwn holi ateb

C- sut mae modd ichi ddweud yn eich adroddiad bod na ddim goryrru . Os mai cyfartaledd da chi yn ddefnyddio yn amlwg mae cyfran yn fwy a cyfran yn llai felly mae o yn hollol gelwyddog i ddweud bod na neb yn goryrru . Tydi'r ddadl o ddweud bod gosod arwyddion 20 mya am godi y cyflymder ddim yn dal dwr mae'r arwydd rŵan yn uwch felly y targed yn uwch

A – ceisio rhoi pethau mewn cyd destun mae'r adroddiad. Da chi yn dehongli'r ffigyrau mewn ffordd i siwtio chi . Os ydach chi yn edrych ar bob safle yn unigol mae nhw dal yn llai na 20 milltir yr awr . Wedi methu cael ffigyrau ar gyfer y maes ei hun gan fod y teclyn yn mynd ar draws lon (a does na ddim lon ar y Maes) . Mae na wastad canran am anwybyddu unrhyw arwydd felly dim yn medru cyfiawnhau costau arwyddion newydd ar sail y data presennol

C- teimlo mai mater i'r heddlu ydi hwn
A – wnawn ni ofyn wrth yr Heddlu edrych ar ardal Lon Balaclava a copïo'r clerc i mewn

C – pa amser o'r dydd yda chi yn cofrestru ffigyrau ? ffigyrau rhai amseroedd fel 8-9 yn gam arweiniol gan bod pawb yn gorfod mynd yn araf ofnadwy

A – cofrestru bob chwarter awr am 24 awr a cyfartaledd

C – Angen canolbwyntio ar un ardal gan bod y ffigyrau ar gyfer Ffordd Balaclava yn wir profi sylw

A – gan mai lon i mewn i ganol dref ydi – pobl yn arfer arafu a pafin mawr y ddwy ochr
Ond mi wnawn ni ofyn wrth yr Heddlu fonitro'r sefyllfa

C - gwendid yn eich ffigyrau gan bod chi wedi cyfaddef bod yr offer ddim yn medru cofrestru ar Y Maes, felly fedrwch chi ddim gwadu bod na broblem yno

A – Mae'r offer yn cofrestru faint o gerbydau, pa fath o gerbydau, pa gyfeiriad mae nhw yn mynd. Dim yn meddwl bod hi yn realistig meddwl bod car oedd yn gwneud cyfartaledd o 12.8 ar y lon i mewn i'r Maes yn medru gwneud 40 mewn cyn lleied o amser

Diolchodd Y Maer i'r ddau am eu hamser

1. **Ymddiheuriadau**

Cyng A Hopcyn, Cyng E Lovgreen, Cyng W L Davies,
Cyng T Thomas, Cyng A Bohana, Cyng K Williams, Cyng A Kirk

2. **Cyhoeddiadau'r Maer**

- Orymdaith Rhyddfraint yn Bangor
- Civic Sunday in Denbigh
- Mynd a teulu Cynghorydd M Thomas o'r America i'r Castell

3. **Datgan Buddiant Personol**

H Edwards – Trwyddedu
I C Thomas – Trwyddedu
W T Owen – Cynllunio a Trwyddedu

4. **Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc**). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

Dim

5. Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol:-

i. Cyngor, 17 Mehefin 2014
Penderfynwyd
Derbyn fel rhai cywir

6. Ceisiadau Cynllunio a trwyddedu

I ystyried y ceisiadau cynllunio a thrwyddedu

Penderfynwyd

Cynllunio

1. C14/0529/14/LL ***Cytuno***
Ail sefydlu tŷ annedd yn ôl i dy ar wahân
20 Rhes Segontiwm Caernarfon
*****

Trwyddedu

1. *Cais am drwydded er mwyn* **Cytuno**

Darparu caffi palmant ar y briffordd/
Application for licence to provide
Pavement café facilities on the highway

Cynllun diwygiedig/Revised Layout

Tu allan a gyferbyn a Spinnakers/
Outside and opposite the Spinnakers

7 - 8 Maes, Caernarfon

****

2. **Deddf Trwyddedu 2003/Licensing Act 2003**

I amrywio Trwydded Eiddo/ **Anghytuno - methu dod i**
For a Variation of Premises Licence **benderfyniad ar sail cynnwys y cais yn ei ffurf presennol**

The Old Market Hall, Palace Street Caernarfon

7. **Cyfrifon**

I gymeradwyo y biliau rhoddion a chyflogau i'w talu
Penderfynwyd
Derbyn a'u talu

8.Cysoni Cyfrifon
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

9. Llythyr Cyngor Gwynedd

Pâr: Y planters, angen inni cychwyn ar yr elfen cynhaliaeth
Penderfynwyd
I'r clerc symud ymlaen i drefnu gan fynd at Antur Waunfawr gyntaf

10. Llythyr parthed Codi faner dros y Gymanwlad
Penderfynwyd
Prynu fflag ar gyfer y digwyddiad

11. Cofnodion Tref Caerog ac e-bost

Pâr: Aelodaeth Anrhydeddus
Angen dau gynrychiolydd ar gyfer cyfarfodydd Rali Ceir . ac angen dyddiad i'r cyfarfod blynyddol yn Caernarfon
Penderfynwyd
Cynghorydd B Owen a Cynghorydd E Hughes i gynrychioli . Dim enwebiadau ar gyfer Aelod anrhydeddus. Clerc i drefnu dyddiad

12. Llythyr parthed Cofiadur Anrhydeddus
Penderfynwyd
Y Maer , Dirprwy a'r clerc i gyfarfod Barnwr Rhys Rowlands a gweld a fyddai yn fodlon , yna pan yn adrodd yn nol i'r cyngor fydd angen trafod un elfen arall

13. E-bost gan Cyng. Eiriona Hughes
Chwilio am wirfoddolwyr i llnau
Oes na ffordd i Cyngor Tref chwarae rhan
Cafwyd sgwrs eang am y ffaith bod hyn wedi digwydd sawl gwaith trwy gyd weithrediad efo Cadw Cymru'n daclus a Adran Peter Simpson

Penderfynwyd
Gofyn wrth yr adran addysg am ei harweiniad nhw gan mai diogelwch plant yn mynd i'r ysgol ydyw , gan nodi bod yr holl waith wedi digwydd yn hanesyddol . Os nad yn llwyddiannus i fynd ati i drefnu cynllun ar y cyd eto tra yn gofyn wrth adran priffyrdd os ydi'r lon wedi eu mabwysiadu

14. Llythyr Cyngor Gwynedd

Pâr: Cynllun datblygu ar y cyd
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

15. Cyngor Gwynedd

Pâr: Cynllun Arfaethedig i gyflwyno cyfyngiadau parcio
Penderfynwyd
Derbyn a chefnogi'r cynnwys

(gadawodd Cyng I C Thomas yn ystod yr eitem yma am 7.15)

16. Ymateb S4C
Penderfynwyd
Croesawu cynnwys y llythyr gan ysgrifennu i ddiolch am yr ymateb llawn. Gan nodi bod ni dal yn teimlo bod Caernarfon yn safle gwell a dylai bod na mwy o wybodaeth am yr elfen pres cyhoeddus ac yn ymfalchïo yn cynnwys paragraff olaf o'r llythyr

17. Adroddiad Blynyddol Ombwdsman

(Copi ar y bwrdd)
Penderfynwyd
Derbyn er gwybodaeth

18.Cwestiynau
Pa bryd fydd y gofalwr newydd yn cychwyn ?
Yn fuan

Gorffennodd y cyfarfod am 7.25

Arwyddwyd ..... Dyddiad .....